

Sgiliau Bwyd Cymru

Amlinelliad o'r Prosiect

Mae Sgiliau Bwyd Cymru yn cefnogi busnesau sy'n y diwydiant prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymreig er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r hyfforddiant cywir gan weithwyr fydd yn cryfhau'r diwydiant cyfan. Gan weithio ym mhob sector, bydd yn helpu paratoi gweithwyr ledled Cymru i addasu ar gyfer heriau'r dyfodol a heriau amgylcheddol a'u rhoi mewn lle da i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu a thyfu eu busnes.

Bydd busnesau cymwys sydd eisiau cymorth gan y rhaglen yn gwneud cais drwy gwblhau Teclyn Diagnostig Sgiliau wyneb yn wyneb gydag aelod o dîm Sgiliau Bwyd Cymru. Bydd hyn yn helpu'r busnes i nodi unrhyw fylchau sgiliau a rhoi cynllun hyfforddi wedi ei deilwra ar waith. Yna gall busnesau ymgeisio am gyllid er mwyn helpu gyda'r gost o gwblhau unrhyw gyrsiau hyfforddi.

Rydyn ni'n gweithio ar y cyd gyda phrosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fel Prosiect Helix a Cywain i sicrhau bod busnesau'n cael y gefnogaeth gywir sydd wedi ei theilwra i'w hanghenion penodol nhw.

Rhaglen 3 blynedd yw hon a daw i ben ym mis Medi 2021.

Hyfforddiant a Ddarperir

Mae'r cyrsiau hyfforddi y gellir eu cefnogi'n dod o dan y categorïau canlynol:

1	Rheoli Busnes	7	Rheoli Amgylcheddol
2	Arwain a Rheoli	8	Gwerthu a Marchnata
3	TGCh	9	Warysau, Storio a Logisteg
4	Hylendid Technegol a Hylendid Bwyd	10	Hyfforddiant sy'n Benodol i'r Diwydiant Bwyd
5	Technoleg Bwyd	11	Labelu a Phecynnu Bwyd a Diod
6	Iechyd a Diogelwch		

Caiff y cyrsiau hyfforddi eu darparu drwy fframwaith sydd wedi ei chaffael o ddarparwyr hyfforddiant sydd wedi eu cymeradwyo er mwyn sicrhau eu bod nhw'n delio â Chymru gyfan.

Cymhwysedd

- Busnes prosesu a gweithgynhyrchu Bwyd a Diod sydd yng Nghymru. Gall hyn hefyd gynnwys safleoedd cynhyrchu yng Nghymru sydd â'u pencadlys wedi eu cofrestru y tu allan i Gymru

- Mae gweithwyr sy'n byw y tu allan i Gymru yn gymwys os yw eu gweithle yng Nghymru
- Mwyafswm y cyllid sydd ar gael i bob busnes yn ystod cyfnod Rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru yw €200,000
- Cyn y gallwn ni gefnogi busnes mae'n rhaid iddyn nhw arwyddo datganiad De Minimis sy'n datgan nad ydyn nhw wedi mynd heibio i'r trothwy o €200,000 mewn 3 blynedd
- Gall busnesau gyflwyno mwy nag un cais am gyllid mewn blwyddyn yn ddibynol ar y trothwy cyllid
- Caiff pob cais am gyllid ei sgorio'n fewnol a dim ond ceisiadau sy'n gallu dangos enillion ar fuddsoddiad gaiff eu cefnogi
- Mae'n rhaid i geisiadau a chostau gael eu cymeradwyo gan Sgiliau Bwyd Cymru cyn i'r hyfforddiant gael ei gynnal
- Fel arfer dylid cynnal a chwblhau'r hyfforddiant o fewn blwyddyn i'r cyllid gael ei gymeradwyo.
- Bydd y busnes yn talu'r cyfraniad a gytunwyd i'r darparwr hyfforddiant a ddewiswyd a bydd y darparwr hyfforddiant yn hawlio'r cyllid dros ben gan Lantra.

Cyfraddau Ymyrraeth

- | | |
|---|-------------------|
| • Busnesau Micro (1 – 10 gweithiwr) | hyd at 80% |
| • Cyflogwyr bach a chanolig (11- 249 gweithiwr) | hyd at 70% |
| • Sefydliadau mawr (> 250 gweithiwr) | hyd at 50% |

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lantra

www.sgiliaubwyd.cymru

wales@lantra.co.uk

Ffôn: 01982 552646

Mae Lantra wedi cael cyllid gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru i ddarparu Rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru.